**CYFARFOD Y PWYLLGOR DEDDFAU** LEG-24-2002 (min)

**COFNODION:**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 19 Tachwedd 2002 |
| **Amser:** | 9:30 a.m. |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |

**Presennol:**

| | |
|---|---|
| Mick Bates | (Democrat Rhyddfrydol) |
| Rosemary Butler | (Llafur) |
| Glyn Davies | (Ceidwadwyr) |
| Ron Davies | (Llafur) |
| Pauline Jarman | (Plaid Cymru) |
| Ann Jones | (Llafur) |
| Dr Dai Lloyd | (Plaid Cymru) |
| Karen Sinclair | (Llafur) |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| John Turnbull | (Ymgynghorydd Cyfreithiol) |
| Huw Rowlands | (Ymgynghorydd Cyfreithiol) |
| Olga Lewis | (Clerc y Pwyllgor) |
| Simon Thwaite | (Dirprwy Glerc y Pwyllgor) |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb:** Dim

**Eitem 1: Cofnodion y cyfarfod diwethaf a materion sy'n codi: LEG-23-2002(min)**

1.1 Cytunodd y Pwyllgor ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Tachwedd 2002.

**Eitem 2: Adroddiad y Cadeirydd**

2.1 Atgoffodd y Cadeirydd yr Aelodau, y nodwyd yng nghyfarfod diwethaf y Pwyllgor Deddfau bod yr Aelodau, yn ystod ymweliad y Pwyllgorau â Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol wedi cael taflen ddefnyddiol iawn yn nodi hynt yr Offerynnau Statudol. Gofynnodd nifer o Aelodau am gopi o'r ddogfen hon. Dosbarthwyd y ddogfen i bawb drwy gyfrwng e-bost ar ôl y cyfarfod ddydd Mawrth diwethaf, 12 Tachwedd 2002.

2.2 Hysbysodd y Cadeirydd yr Aelodau eu bod hwy oll wedi derbyn llythyr yn egluro'r dewis o weithdrefn weithredol ar gyfer "Gorchymyn Iechyd Planhigion (*Phytophthora ramorum*)

(Cymru) (Rhif 2) 2002". Yr Offeryn Statudol hwn oedd y diwethaf ar y rhestr deddfau i'w ystyried yn y cyfarfod hwn. Hysbysodd y Cadeirydd yr Aelodau bod copïau o'r llythyrau ynglŷn â'r dewis o weithdrefn yn cael eu hanfon ato yn rhinwedd ei swydd fel Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau. O hyn ymlaen, bydd y Cadeirydd yn eu trosglwyddo i Aelodau'r Pwyllgor er gwybodaeth.

**Eitem 3: Gorchmynion y Cynulliad i'w Hystyried**

**LC560 – Gorchymyn Deddf Consesiynau Teithio (yr Hawl i'w Cael) 2002 (Cychwyn) (Cymru) 2002**

3.1 Cyflwynodd Mr Turnbull yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Gorchymyn o dan y Weithdrefn Gyflymach.

3.2 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Gorchymyn ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. Fodd bynnag, gwnaeth y Pwyllgor un sylw y dylid ei gofnodi yn ei adroddiad ym marn y Pwyllgor.

3.3 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Gorchymyn fel LC560 (Adroddiad).

**LC561 – Gorchymyn Deddf Diwygio Deiliadaeth ar y Cyd a Lesddaliad 2002 (Cychwyn Rhif 1, Arbedion a Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2002**

3.4 Cyflwynodd Mr Turnbull yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Gorchymyn o dan y Weithdrefn Safonol.

3.5 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Gorchymyn ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. Cafodd yr Ymgynghorwyr Cyfreithiol y cyfle i weld drafft cynnar a nodwyd nifer o bwyntiau a ystyriwyd yn y drafft terfynol.

3.6 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Gorchymyn fel LC561 (Adroddiad).

**LC562 - Rheoliadau Trefniadau ar gyfer Lleoli Plant (Cyffredinol) ac Adolygu Achosion Plant (Diwygio) (Cymru) 2002**

3.7 Cyflwynodd Mr Turnbull ei adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Safonol.

3.8 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. Fodd bynnag, gwnaeth y Pwyllgor un sylw y dylid ei gofnodi yn ei adroddiad ym marn y Pwyllgor.

3.9 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC562 (Adroddiad).

**LC563 – Rheoliadau Bwyd at Ddefnydd Maethol Neilltuol (Ychwanegu Sylweddau at Ddibenion Maethol Penodol) (Cymru) 2002**

3.10 Cyflwynodd Mr Rowlands yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Gyflymach.

3.11 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. Fodd bynnag, gwnaeth y Pwyllgor un sylw y dylid ei gofnodi yn ei adroddiad ym marn y Pwyllgor.

3.12 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC563 (Adroddiad).

**LC564 – Rheoliadau Cynlluniau Partneriaethau Ansawdd (Cyfleusterau sy'n Bodoli Eisioes) (Cymru) 2002**

3.13 Cyflwynodd Mr Rowlands yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Gyflymach.

3.14 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. Fodd bynnag, gwnaeth y Pwyllgor un sylw y dylid ei gofnodi yn ei adroddiad ym marn y Pwyllgor.

3.15 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC564 (Adroddiad).

**LC565 – Gorchymyn Iechyd Planhigion (*Phytophthora ramorum*) (Cymru) (Rhif 2) 2002**

3.16 Cyflwynodd Mr Rowlands yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwnaed y Gorchymyn o dan y Weithdrefn Weithredol.

3.17 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Gorchymyn ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5 ac nid oedd ganddynt unrhyw sylwadau cyffredinol.

3.18 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Gorchymyn fel LC565 (Adroddiad).

**Eitem 4: Unrhyw Fater Arall a Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**

4.1 Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 26 Tachwedd 2002.